**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1**
**Legislation Committee No.1**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

5 Mai 2009

Annwyl Gyfaill,

**Ymgynghoriad ar y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)**

Rhoddwyd y gorchwyl o ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru) ('y Mesur arfaethedig') i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Pwyllgor'). Cyflwynwyd y Mesur arfaethedig gan Nerys Evans AC ym mis Tachwedd 2008 yn dilyn ei llwyddiant yn y balot sy'n rhoi hawl i'r Aelodau meinciau cefn geisio cyflwyno eu cynigion eu hunain ar gyfer deddfwriaeth.

Mae manylion y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef i'w cael yn:

http://www.cynulliadcymru.org/ms-ld7287-e.pdf

http://www.cynulliadcymru.org/ms-ld7287-em-e.pdf

Er mwyn hysbysu gwaith y Pwyllgor, byddai'n croesawu tystiolaeth ysgrifenedig ar y Mesur arfaethedig gan bartïon sydd â diddordeb. **Yn benodol, hoffai sylwadau ar yr hyn a ganlyn:**

1. **A oes angen Mesur Cynulliad ynghylch cynnwys cymunedau yn y trefniadau a wneir gan awdurdodau lleol ar gyfer ymdrin â deunydd sydd wedi ei ailgylchu?**

2. **Beth yw eich barn am y darpariaethau allweddol a nodir yn y Mesur arfaethedig, hy**

**Ffon / Tel: 029 2089 8025**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationcommitteeno1@wales.gsi.gov.uk**

- **y ddyletswydd ar awdurdodau yng Nghymru i baratoi datganiadau ynghylch gwastraff y bwriedir ei adfer a gludir y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac Ardal Masnach Rydd Ewrop (ETFA) (adran 55A(2));**

- **y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y datganiad (adran 55A, is-adran 5(a) - (f));**

- **y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r datganiad (adran 55B);**

- **y gofyniad i gynnwys yn y datganiad wahoddiad i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau i'r awdurdod ynghylch gwastraff y bwriedir ei adfer (adran 55B, is-adran 3); ac**

- **y gofyniad ar yr awdurdod i ystyried y sylwadau a wneir wrth benderfynu ar y trefniadau yn y dyfodol ar gyfer gwastraff y bwriedir ei adfer (adran 55B, is-adran 5).**

**3. Ai'r darpariaethau uchod yw'r dulliau mwyaf addas o sicrhau ymgysylltiad y gymuned â threfniadau awdurdodau lleol ar gyfer ymdrin â deunydd sydd wedi ei ailgylchu?**

**4. Beth yw goblygiadau ymarferol ac ariannol sefydlu'r darpariaethau hyn?**

**5. A fydd y Mesur arfaethedig yn bodloni ei ddiben a'i amcanion, hy sicrhau mwy o dryloywder a dull mwy agored o weithio o ran sut mae awdurdodau lleol Cymru'n ymdrin â deunydd sydd wedi ei ailgylchu; sicrhau bod trigolion yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio'r adnoddau ailgylchu sydd agosaf at ffynhonnell y deunydd sydd wedi ei ailgylchu yn hytrach na'r rhai sydd bellaf oddi wrtho; ac ennyn mwy o ddiddordeb, a chyfranogaeth o bosibl, mewn ailgylchu?**

**Os hoffech wneud unrhyw sylw arall ar y Mesur arfaethedig na gynhwyswyd yn eich atebion i'r cwestiynau uchod, mae croeso i chi wneud hynny.**

Os hoffech anfon tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad at **Pwyllgordeddfwriaeth1@cymru.gsi.gov.uk** gan ddefnyddio'r teitl *Ymgynghoriad – y Mesur arfaethedig cludo gwastraff i'w adfer*. Os byddai'n well gennych anfon copi caled o'ch cyflwyniad, anfonwch ef at Claire Griffiths, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai eich cyflwyniadau gyrraedd y Cynulliad erbyn dydd Llun 15 Mehefin 2009. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.**

Mae gwybodaeth bellach ar y **broses ddeddfwriaethol** i'w chael yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-measures.htm

Wrth baratoi eich cyflwyniad, gofynnir i chi ystyried y canlynol:

- dylai eich ymateb fod yn gryno a dylai ymdrin â'r materion sydd gerbron y Pwyllgor. Defnyddiwch y pennawd uchod fel cyfeirnod i'ch ymateb;
- fel arfer, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn trefnu bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd fedru craffu arnynt, ac efallai y cânt eu gweld a'u trafod hefyd gan Aelodau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd Pwyllgor. **Os nad ydych yn dymuno cael eich ymateb a'ch enw wedi'u cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir yn eich cyflwyniad;**
- gofynnir i chi nodi a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn; a
- gofynnir i chi nodi a fyddech yn barod i roi tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ar ddiwedd tymor yr haf a dechrau tymor yr hydref.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Liz Wilkinson, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8025 neu Claire Griffiths, y Dirprwy Glerc, ar 029 2082 1990.

Yr eiddoch yn gywir



**Rosemary Butler AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**